

ISSN 2053-5171
Rhifyn 6
Hydref 2014

Herio Materion Crefyddol

Michael Armstrong
ar Ewthanasia

Gareth Lloyd Jones
ar Y Mudiad Seionaidd

Paul Wilson
ar Ffwndamentaliaeth fel
Ymateb i Feirniadaeth
Feiblaidd

Declan O'Sullivan
ar Y Cysyniad o *Jihād*
mewn Islam

Herio Materion Crefyddol

Cefnogi Astudiaethau Crefyddol Safon Uwch a thu hwnt

Rhifyn 6, Hydref 2014

Cynnwys

Ewthanasia: A oes gennym yr hawl i farw pan fyddwn ni eisiau? Dr Michael Armstrong	2
Y Mudiad Seionaidd Yr Athro Gareth Lloyd Jones	8
Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd Paul Wilson	15
Y Cysyniad o <i>Jihād</i> mewn Islam Dr Declan O'Sullivan	22

Golygydd

Professor Jeff Astley (Prifysgol Glyndŵr)

Golygydd Rheolaethol

Dr Tania ap Siôn (Prifysgol Glyndŵr, Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn)

Ymgynhorwyr Golygyddol

Yr Athro Leslie J. Francis (Prifysgol Warwick)

Libby Jones (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Yr Athro William Kay (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro David Lankshear (Prifysgol Glyndŵr)

Phil Lord (Arweinydd System, GwE)

Yr Athro Peter Neil (Prifysgol Bishop Grosseteste)

Dr Stephen Parker (Prifysgol Worcester)

Dr Paul Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Jenny Rolph (Prifysgol Glyndŵr)

Mary Stallard (Canolfan Sant Silyn, Wrecsam)

Y Gwir Barchedig David Walker (Prifysgol Glyndŵr)

Yr Athro Michael West (Prifysgol Glyndŵr)

Dyluniwyd gan Phillip Vernon

Cyfieithiad gan Nant Roberts

Herio Materion Crefyddol

Canolfan y Santes Fair a Sant Silyn

Llys Onnen

Abergwyngregyn

Gwynedd

LL33 0LD

Ffôn: 01248 680131

E-bost: t.apsion@glyndwr.ac.uk

Gwefan: www.st-marys-centre.org.uk

Noddwyd gan Lywodraeth Cymru

Ewthanasia: A oes gennym yr hawl i farw pan fyddwn ni eisiau?

Michael Armstrong

Mae'r erthygl hon yn ymgais i archwilio'r prif faterion cyfreithiol a diwinyddol Cristnogol ynghylch y ddadl gyfredol am ewthanasia a 'marwolaeth sy'n cael ei gynorthwyo'.

Cyswllt manyleb: CBAC RS1/2 CS: Cyflwyniad i Grefydd yn y Gymdeithas Gyfoes (AS). 1. Materion Meddygol ac Amgylcheddol; RS3 ETH: Astudio Crefydd a Moeseg (A2), 4. Moeseg Feddygol a Genetigol; RS HE: Astudio Crefydd a'r Profiad Dynol (A2), 3. Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth.

Mae Ewthanasia'n destun trafodaeth frwd gyda safbwyntiau cyferbyniol cryf (Jackson & Keown, 2012). Mae'r gyfraith bresennol yn Lloegr a Chymru yn datgan nad yw hunanladdiad yn anghyfreithlon, ond mae cynorthwyo unrhyw un i gymryd eu bywyd eu hunain yn anghyfreithlon. Fe barodd achosion prawf fel un Debbie Purdy yn y flwyddyn 2009, i Gyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus egluro'r amgylchiadau pryd y byddai erlyniad yn debygol am gynorthwyo rhywun i roi terfyn ar ei fywyd. I rai, dyma'r ateb cyfreithiol delfrydol oherwydd ei fod yn darparu ymateb tosturiol i'r rhai â'r cymhellion pur; ond i eraill mae'n ddwli cyfreithiol anfodddhaol sy'n peri ansicrwydd ym meddyliau pobl ag amgylchiadau anobeithiol diwedd bywyd. Mae'r ddadl ar ewthanasia'n aml yn ymwneud â dadleuon emosïynol cryf

yn deillio o brofiadau personol, ond gall profiadau tebyg arwain at safbwyntiau gwrthgyferbyniol a gall tystiolaeth empeiraidd gael ei dehongli'n bur wahanol. O ganlyniad felly mae'r ddadl gyhoeddus yn aml yn begynol a negyddol, er bod arolygiadau o'r farn gyhoeddus yn dangos yn gyson, fwyafrif mawr o blaid rhyw ffurf o Ewthanasia Gwirfoddol Gweithredol - *Voluntary Active Euthanasia (VAE)*.¹

Fe awgrymodd y Mesur Cynorthwyo Marwolaeth 2014 gan yr Arglwydd Falconer ffurf ar VAE, lle'r oedd claf cymwys yn rhoi caniatâd gwirfoddol i derfynu ei fywyd. Mewn ffaith, fe awgrymodd y Mesur Hunanladdiad

¹ Er enghraifft, y pŵl YouGov diweddaraf – gwelwch <http://yougov.co.uk/publicopinion/archive/10298/>. Cofiwch fod y pŵl hwn wedi ei gomisiynu gan ochr 'o blaid' y ddadl.

Ewthanasia

Cynorthwyol gan Feddyg - *Physician Assisted Suicide (PAS)* mewn gwirionedd: gweithdrefn lle byddai'r meddyg yn pennu meddyginiaeth angheuol y byddai'n ofynnol i'r claf ei hun ei weinyddu. Gall Ewthanasia fod yn anwirfoddol - *involuntary* - (claf cymwys, ond heb ganiatâd) neu'n rhywbeth nad yw'n wirfoddol - non-voluntary (pan na fydd y claf yn meddu ar y gallu i wneud penderfyniad diwedd bywyd). Gelwir rhoi'r gorau i driniaeth yn ewthanasia 'goddefol' weithiau. Mae rhai gwledydd wedi cyfreithloni ffurf ar ewthanasia gwirfoddol. Mae gan daleithiau Oregon a Washington yn UDA ffurf ar *PAS*, fel sydd hefyd gan y Swistir. Maer gan Luxembourg, Yr Iseldiroedd a Gwlad Belg ffurf ar *VAE*; ac y mae cynigion gerbron yn Ffrainc a Canada. Nid oes arferiad cyfreithlon o ewthanasia anwirfoddol, ond mae ewthanasia nad yw'n wirfoddol yn digwydd yn yr Iseldiroedd yng nghyd-destun babanod sy'n ddifrifol wael.

Mae'n bwysig adnabod dwy nodwedd a berthyn i'n cymdeithas gyfoes sy'n effeithio'r ddadl. Yn gyntaf, fel gwlad ddiwydiannol nodweddiadol yn y gorllewin, *mae marwolaeth wedi dod yn dabw cymdeithasol* ac yn gyffredinol ni cheir sgwrs am farwolaeth mewn bywyd cymdeithasol, teuluol, na chenedlaethol normal. Yn ail, mae llwyddiant meddyginiaethau yn y degawdau diwethaf wedi golygu bod *y mwyafrif o bobl yn awr yn byw yn hŷn*, ac felly'n aml yn *byw blynyddoedd olaf eu bywyd yn dioddef cyflyrau meddygol dwys*. Mae'r cynnydd yn y raddfa o achosion o glefyd Alzheimer a ffurfiau eraill o orddryswch oedrannus yn un dangosydd amlwg o hyn. Mae cost ariannol gynyddol sydd ynghlwm wrth ofal diwedd oes yn fater o bwys sy'n hofran uwchben y ddadl ond

ddim yn aml yn cael ei grybwyll yn uniongyrchol.

Y ddadl gyfreithiol

Mae penderfyniadau diwedd bywyd yn gorfod cael eu gwneud, ac yn cael eu gwneud o hyd, oddi mewn i'n cyfundrefn feddygol. Mae'r ymadrodd 'tawelyddiad terfynol' yn cyfeirio at y gollyngdod angenrheidiol oddi wrth boen i'r graddau ei fod yn peri i'r corff fynd i goma a chyflymu diwedd bywyd. Mae'r ochr 'o blaid' yn dadlau fod hyn yn gyfystyr â *PAS/VAE*. Manlyrwydd cyfreithiol yw'r hyn sy'n cael ei ragweld, er yn anfwriadol, yn 'effaith ddwbl' y gollyngdod poen hwn: mae'n lladd y claf. Mae'r ochr 'yn erbyn' yn datgan ei fod yn rhywbeth hollol wahanol, fel hefyd y mae rhoi'r gorau i driniaeth y bydd claf yn ei derbyn mewn rhai amgylchiadau ar ddiwedd bywyd. Dadleuir hefyd a fyddai hyn yn newid yn sylfaenol y berthynas rhwng claf a meddyg.

Mae'r ochr 'o blaid' yn dadlau ein bod yn gorfodi marwolaethau erchyll ar bobl sy'n cael eu hunain mewn amgylchiadau eithafol o ddiodefaint ar ddiwedd bywyd. Tra dylai gofal lliniarol rhagorol barhau i gael ei ymestyn (fe ddywed yr ochr 'yn erbyn' y byddai datblygiad o'r fath yn cael ei effeithio er gwaeth pe byddai *PAS/VAE* yn cael ei gyflwyno), nid yw ar gael yn gyffredinol (delio'n bennaf â chleifion canser y mae hosbisau) ac nid yw bob amser yn gallu rheoli poen. Mae cyflwyno *VAE/PAS* felly'n angenrheidiol, ac ni fyddai'n arwain at 'lethr llithrig' i'r rhai bregus: gellid gosod dulliau diogelu addas yn eu lle. Gwêl yr ochr 'yn erbyn' ddilyniant anochel oddi wrth *PAS* tuag at *VAE* ac yna tuag at ewthanasia nad yw'n wirfoddol. Maent yn hawlio y byddai'n amhosibl cael dulliau diogelu digonol, yn arbennig yng nghyd-destun cael asesiad

Ewthanasia

seiciatryddol digonol ar gyfer rhywun sy'n chwilio am gymorth i farw. Unwaith y caiff yr egwyddor 'nad yw bywyd yn werth ei fyw' (mewn rhai amgylchiadau, yna pam y dylid disgwyl i bobl benderfynu hyn drostynt eu hunain? Byddai'r rhai sydd ag anabledau dwys, ac eraill sydd angen gofal meddygol helaeth, yn teimlo'n fregus (rhywbeth sy'n cael ei ddadlau'n gryf gan yr ochr 'o blaid').

Y ddadl ddiwinyddol

Mae'r gred ein bod wedi cael *ein gwneud ar lun a delw Duw (Imago Dei, Gen. 1:27)*, yn golygu bod *pob unigolyn sydd mewn unrhyw sefyllfa, ac ym mhob sefyllfa, i gael ei werthfawrogi, i dderbyn gofal, ac i'w amddiffyn rhag niwed*. Heblaw hynny, roedd Iesu'n amddiffyn y gwan a'r bregus yn ei weinidogaeth, ac mewn testunau fel Math. 25:45, fe welwn sut y gelwir ar yr Eglwys i ofalu am bobl o'r fath. Felly mae *sancteiddrwydd bywyd* (bywyd yn gysegredig/sanctaidd ac felly i'w amddiffyn) yn ymddangos yn eglur.

Ond a ddylid amddiffyn bywyd ar bob cyfrif? Er enghraifft, a fyddai'n foisol gywir ac yn angenrheidiol i niweidio un person er mwyn amddiffyn eraill? Byddai'r safbwynt moesol 'absoliwtaidd' yn hawlio fod gwerthoedd moesol yn rhodd gan Dduw ac yn ddiamod: felly mae'r chweched gorchymyn 'Na ladd' (Ex. 20:13) yn golygu hynny a dim llai, ym mhob sefyllfa. Fodd bynnag, gellir dadlau bod yn yr Hen Destament lawer o eithriadau i'r gorchymyn hwn (fel rhyfel, a'r gosb eithaf), ac mae'n ymddangos bod testunau Beiblaidd yn dueddol o wahardd llofruddiaeth ond nid hunanladdiad (er enghraifft Samson, gweler Barnwyr 16:30). Hefyd, fe ddewisodd Iesu roi ei fywyd ei hun i fyny (Ioan 10:18) a phwysleisio'r gwerth moesol o farw dros rywun arall (Ioan 15:13). Fe ddewisodd llawer o ferthyron

Cristnogol cynnar farwolaeth (neu hyd yn oed chwilio am farwolaeth) i osgoi gwrthgiliad. Byddai safbwynt 'cynlaniadaethol' moesegol yn datgan nad oes unrhyw beth yn dda nac yn ddrwg ynddo'i hun, ond ei fod yn dibynnu ar yr hyn sy'n deillio ohono. Hawlia rhai diwinyddion nad oedd dull moesegol Iesu'n absoliwtaidd; er enghraifft, roedd yn rhoi'r flaenoriaeth i angen dynol dros lythyren y ddeddf (rheol y Saboth, Marc 2:27). Crynhodd Iesu'r gyfraith fel cariad Duw a chariad cymydog (Math. 22:37-40), a'i reol aur oedd: 'Pa beth bynnag y dymunwch i ddynion ei wneud i chwi, gwnewch chwithau felly iddynt hwy.' (Math. 7:12). Felly meddylia Paul Badham, os ydym mewn gwirionedd yn caru ein cymydog fel ni ein hunain, sut gallwn ni wrthod iddyn nhw y cymorth i farw y byddai arnom ni ei eisiau (Badham, 2009, t. 121)?

Os mai *rhodd gan Dduw yw bywyd* a all bodau dynol fyth benderfynu pa bryd i roi terfyn ar y rhodd honno? Nid yw George Pitcher mewn unrhyw amheuaeth nad yw byw bywyd i'w derfyn naturiol yn unig yn fuddiol ond yn fenter sacramentaidd - *is 'in no doubt that the playing out of life to its natural end is not just a worthwhile but a sacramental enterprise'* (Pitcher, 2010, t. 20). Mae ef yn cynrychioli'r safbwynt sy'n beio'r datblygiad o *unigoliaeth seciwlar* (pwyslais cynyddol ar ymreolaeth ddynol a'r hawl i'n dewisiadau personol) fel yr hyn sy'n gyrru'r rhai sy'n ceisio cyfreithloni ewthanasia. Golyga'r *Imago Dei* fod bywyd wedi ei roddi i ni fel rhodd; ac yr ydym ninnau yn ein tro yn eu rhoi i eraill, hyd yn oed pan fyddwn yn marw. Ni chawn benderfynu pa bryd y bydd bywyd dynol yn dod i ben, ac fe ddylem gydnabod bod ein bywydau yn rhan o'r gymuned yr ydym yn perthyn iddi. Yn ei gwrthwynebiad i *'farwolaeth*

Ewthanasia

cynorthwyedig, gwna Eglwys Loegr yn eglur fod ymreolaeth ddynol yn ddyrys, a pha bryd bynnag y mae'n gwrthdaro â diogelu bywyd fe ddylai fod yna ragdybiaeth o blaid bywyd -'presumption in favour of life' (*Assisted Dying/Suicide and Voluntary Euthanasia*, Mawrth 2009, (<http://www.churchofengland.org/media/57990/assisteddyingpdfmar09.pdf>)).

Rhybuddiodd y Pab Ioan Paul II am 'agwedd Promethaidd' mewn diwylliant cyfoes sy'n arwain pobl i feddwl eu bod hwy eu hunain yn gallu rheoli bywyd a marwolaeth; felly daw bywyd yn ddim mwy na rhywbeth y gallwn gael ei wared yn hytrach na'i fod yn rhodd gan Dduw (*Evangelium Vitae*, tt. 70, 98).

Darpara Hans Küng wrthddadl ddiwinyddol, sy'n pwysleisio bod yn ofynnol i *sofraniaeth Duw* fod yn gytbwys â dealltwriaeth o *fywyd dynol fel rhodd* sy'n gwneud *bywyd dynol yn dasg a chyfrifoldeb i ni* (Küng & Jens, 1995, tt. 26-38). Mae'n hawlio fod Duw wedi rhoi i ddynion a merched ryddid a chyfrifoldeb dros eu bywydau, ac felly wedi gadael i'r bobl sy'n marw, y cyfrifoldeb o wneud penderfyniad cydwybodol ynghylch y dull ac amser eu marwolaeth. Mae Küng hefyd yn gwrthod yr honiad bod ewthanasia yn wrthodiad o werth pob bywyd unigol. Iddo ef mae'r gwrthwyneb yn wir: mae hyn yn bod oherwydd erys bodau dynol yn gyfan gwbl ddynol hyd ddiwedd bywyd, fel bod ganddynt yr hawl i farwolaeth urddasol. Mae eraill yn syml yn nodi os nad ydym yn credu bod Duw yn anfon haint neilltuol, afiechyd neu ddamwain, pam ydym yn meddwl mai ef sy'n rheoli ein marwolaeth? Mae'n ymddangos fod Duw yn hapus i roi'r cyfrifoldeb i ni dros bob un o'r camau eraill o'n bywyd corfforol (pa bryd i gael llawdriniaeth, neu gymryd meddyginiaeth) felly paham y dylai fod yn wahanol ar gyfer diwedd ein bywyd?

Beth yw *rôl Duw mewn dioddefaint dynol*? A oes pwrpas fyth i ddioddefaint? A all fod yn brofiad cadarnhaol? I lawer yn yr Eglwys mae'n eglur fod Duw yn cyd-deithio gyda ni trwy ein dioddefaint, ac felly gallwn fod yn nes ato a dysgu oddi wrtho mewn sefyllfaoedd o'r fath. Traethodd y Pab Ioan Paul ar safbwynt o *ddioddefaint achubol* y glynodd ati hyd ddiwedd ei fywyd ei hun, a'i hargymell i'r ffyddloniaid Catholig (*Evangelium Vitae*, tt. 70, 98). Gellir dadlau, y gallwn ni mewn dioddefaint, ddod ar draws y dwyfol mewn ffyrdd unigryw a datguddiadol; felly nid yw'n bosib i ni ddim ond 'neidio allan' o'r bywyd hwn. Mae'r rhai sy'n dioddef hefyd yn darparu'r cyfle i ni ddangos yn ymarferol gariad Duw (Pitcher, 2010, tt. 126-130). Ond a ddylai swyddogaeth o ddioddefaint achubol a ddewiswyd gan y Pab ddod yn rhywbeth cyffredinol ar gyfer pob Cristion, neu'r rhai sydd heb ffydd? Mae hefyd wrthwynebiadau diwinyddol i ddioddefaint achubol o du Protestaniaeth efengylaidd draddodiadol (roedd aberth Crist yn gyfan gwbl ddigonol) yn ogystal â diwinyddiaeth ryddfrydol (y syniad arswydus o aberth Crist yn rhywbeth i gymodlonni Duw). Os cymerwn ni neges lesu o ddifrif mai 'cariad yw Duw', allwn ni gredu bod Duw yn gofyn i ni ddioddef? (Badham, 2009, tt. 83-86). Mae'n amlwg mai profiad dinistriol a negyddol yw dioddefaint i lawer.

A ddylai *dioddefaint fod yn gyfystyr yn unig â phoen corfforol*? Mae'r rhai sy'n haeru bod ymreolaeth ddynol wedi mynd yn rhy bell (gweler uchod) yn hawlio fod hyn yn cael ei adlewyrchu yn y ffaith bod llawer o bobl sydd mewn gwirionedd yn ymgymryd â *PAS* yn nodi eu bod yn colli rheolaeth ac urddas fel ffactorau allweddol wrth gymryd y penderfyniad hwn. Fodd bynnag, mae hyn yn gonsyrn go l-awn i'r terfynol wael; fel hefyd y

Ewthanasia

mae'r anallu i ymwneud â gweithgaredd pleserus, ac effaith eu hafiechyd ar aelodau eu teulu a ffrindiau. Gall symptomau corfforol eraill, fel bod yn fyr o anadl, bod yn anghynhwysol, tagu, cyfog, dryswch a doluriau gwely fod yn bethau blin dros ben hefyd. Nid yw rhai pobl eisiau dod yn ddibynol ar gysglynau (*opiates*) i leddfu poen ar ddiwedd eu hoes; gan ystyried hynny'n llwyrddibyniaeth. Mae'n ymddangos nad yw'r hyn sy'n ddiodefaint annioddefol i un person o reidrwydd yn hynny i un arall. Ond pwy sydd yn y safle gorau i farnu hyn?

Os yw person yn *credu mewn bywyd ar ôl marwolaeth* a ddylai hyn effeithio ar y

modd y mae ef neu hi'n edrych ar ewthanasia? Yr 'wrth' ddadl yw y dylem werthfawrogi a defnyddio'r cyfan o'r bywyd hwn hyd y diwedd un, ac nid dim ond rhuthro i mewn i'r bywyd (gwell) nesaf. Byddai'r ochr 'o blaid' yn dadlau mai trwy wybod yn sicr fod gennym fywyd gyda Duw y tu hwnt i farwolaeth y byddai hynny'n golygu na fyddem eisiau dal ar y bywyd hwn pan ddeuai'n annioddefol. Ystyriaeth arall yw *Teyrnas Dduw*. Cred Cristnogion y dylent greu, yma'n awr, gymdeithas sy'n adlewyrchu bwriadau Duw, felly mae Teyrnas Dduw i'w sylweddoli o leiaf yn rhannol ar y ddaear. A all ewthanasia fod yn bresennol mewn cymdeithas o'r fath?

Cysylltau

<http://www.dignityindying.org.uk/>
(Campaign for Dignity in Dying)

<http://www.livinganddyingwell.org.uk/>
(Living and Dying Well, LDW)

<http://www.carenotkilling.org.uk/>
(Care Not Killing Alliance)

<http://services.parliament.uk/bills/2013-14/assisteddying.html>
(House of Lords, Assisted Dying Bill, 2013-2014)

Pwyntiau trafod

1. Mae gwrthwynebwyr marwolaeth gynorthwyedig â'r hawl i ddatgan 'nid yw hyn ar fy nghyfer i', neu 'nid wyf eisiau rhan o gwbl i gynorthwyo pobl i roi terfyn ar eu bywyd'. Ond a oes ganddynt yr hawl i wrthod y dewis hwn i eraill?
2. Os ydym yn mabwysiadu unrhyw ffurf ar *PAS/VAE* a fydd hynny'n golygu y caiff yn anorfod ei ymestyn (oherwydd ein bod yn

- derbyn y bydd sefyllfaoedd pryd nad yw bywyd yn werth ei fyw)/ A ydych yn credu nad llethr ymarferol yn unig yw'r llethr llithrig, sy'n adlewyrchu'r anhawster o ddarparu amddiffyniadau, ond llethr rhesymegol?
3. A yw *sancteiddrwydd bywyd* yn golygu y dylid gwrthwynebu unrhyw ffurf ar ewthanasia?

Ewthanasia

Cyfeiriadau

Jackson, Emily, & Keown, John (2012). *Debating euthanasia*. Oxford: Hart.

Küng, Hans, & Jens, Walter (1995). *A dignified dying: A plea for personal responsibility*. London: SCM Press.

Badham, Paul (2009). *Is there a Christian case for assisted dying?* London: SPCK.

Pitcher, George (2010). *A time to live: The case against euthanasia and assisted suicide*. Oxford: Monarch.

Gweinidog gyda'r Annibynwyr yn Lloegr yw'r Parchedig Ddr Michael Armstrong ac mae'n diwtor ar gyfer rhaglen radd Ffederasiwn yr Annibynwyr mewn diwinyddiaeth ymarferol. Canolbwyntiodd ymysg ei gynulleidfa ei hun yn ei ymchwil ar gyfer ei ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Durham ar ddiwinyddiaeth yn ymwneud â bywyd ar ôl marwolaeth. Mae ganddo ddau draethawd yn y gyfrol Exploring ordinary theology: Everyday Christian believing and the Church (Farnham: Ashgate, 2013) dan olygyddiaeth Jeff Astley a Leslie J. Francis. Mae ei ddiddordeb ymchwil cyfredol yn ymwneud â safbwyntiau 'diwinyddion cyffredin' am ewthanasia.

Y Mudiad Seionaidd

Gareth Lloyd Jones

Mae'r erthygl hon yn amlinellu twf Seioniaeth fel mudiad seciwlar yn Ewrop gyfandirol a'r gwrthwynebiad a barodd, datblygiad Seioniaeth grefyddol o ganlyniad i'r Holocost a'r gwrthdaro Israel-Arabaidd, a'r cyfiawnhad a roddir gan y Seionyddion seciwlar yn ogystal â'r Seionyddion crefyddol er mwyn cyfeddiannu tir Palestinaidd.

Cyswllt manyleb: CBAC AC3 CG: Crefyddau Gorllewinol (A2), Astudiaethau mewn Iddewiaeth, 4. Materion Arwyddocaol a Digwyddiadau.

Gwreiddiau Seioniaeth

Datblygodd Seioniaeth fel mudiad gwleidyddol o ddwy ffenomenon heb fod yn anghysylltiol: *Haskala* (Goleuedigaeth Iddewig) a gwrth-Semitiaeth. I fod yn fwy manwl, tarddodd o fethiant y naill a llwyddiant y llall.

Haskala

Gwawriodd oes newydd yn y ddeunawfed ganrif: Yr Oes Oleuedig. Yn raddol clywyd y gri ledled Ewrop am ryddid, cyfartaledd a brawdgarwch, yn arbennig yn ystod y Chwyldro Ffrengig yn y flwyddyn 1789. Sylweddolodd Iddew Almaenaidd blaengar, Moses Mendelssohn, os oedd Iddewon am elwa a chael rhagor na bodolaeth ymylol, yn cael eu hanwybyddu gan gymdogion ac yn dioddef rhwystrau sifil, yr oedd yn rhaid iddynt adael diogelwch y geto a chymysgu gyda'r cenedl-ddynion. Byddai'n rhaid iddynt siarad iaith wahanol i Iddeweg (*Yiddish*), astudio pynciau nad oedd yn cael eu cynnwys yn

y Talmud a chymhwyso rheswm tuag at eu crefydd. Byddai'n rhaid iddynt deimlo mor Almaenaidd â'u cyd-ddinasyddion. Ei neges i'w gyd-Iddewon oedd: Os ydych chi eisiau llwyddo, integreiddiwch.

Breuddwyd Mendelssohn oedd y byddai Iddewon, yn dilyn canrifoedd o ormes a chael eu heithrio, yn y pen draw'n cael eu derbyn fel gwir aelodau o gymdeithas. Felly fe fu'n gyfrifol am arloesi'r mudiad *Haskala*, gair sy'n golygu'n llythrennol i fod yn 'ddoeth', 'diwylliannol', neu hyd yn oed 'llwyddiannus'. Erbyn y flwyddyn 1800, roedd miloedd o Iddewon Ewropeaidd gorllewinol wedi dod yn *Maskilim*, *dilynwyr Haskala*.

Ond yn fuan fe gollodd neges Mendelssohn o 'lwyddiant trwy integreiddio' ei hygredd. Pan ddychwelodd Iddew Almaenaidd arall, Moses Hess, a oedd wedi treulio rhan helaeth o'i fywyd yn Ffrainc, i'r Almaen yn niwedd yr 1850au, roedd wedi ei syfrdanu gyda'r hyn oedd wedi digwydd

Y Mudiad Seionaidd

i'r cymunedau Iddewig. Trwy gofleidio'r Oleuedigaeth, roedd yr Iddewon Almaenaidd yn ymddangos eu bod yn gwneud eu gorau glas i wadu eu diwylliant a'u treftadaeth trwy gymathiad.

Yng ngolwg Hess, cam gwag oedd *Haskala*. O'i safbwynt ef, roedd y mudiad wedi methu oherwydd bod y gost o gael derbyniad i gymdeithas Almaenaidd yn rhy uchel. Ni allai'r Iddew fyth integreiddio heb golli ei hunaniaeth. Ei unig iachawdwriaeth, mynnai Hess, oedd dychwelyd i'r wlad yr oedd eu cyndadau wedi ymadael â hi ddeunaw canrif ynghynt. Yn ei lyfr, *Rome and Jerusalem* (1862), ef oedd yr Iddew cyntaf i fynegi dadleuon athronyddol a gwleidyddol o blaid gwladwriaeth genedlaethol Iddewig. Fe ddaeth ei lyfr yn Feibl i'r Seionyddion.

Felly, fe fethodd y mudiad *Haskala* i ennill cefnogaeth gyffredinol ymysg Iddewon oherwydd ei fod yn gofyn gormod oddi wrth ei ymlynwyr. Roedd cost integreiddio'n rhy uchel.

Gwrth-Semitiaeth

Yn y flwyddyn 1881 cafodd Tsar Rwsia, Alexander II, ei lofruddio a rhoddwyd y bai ar Iddewon. Heb oedi, pasiwyd deddfau oedd yn tanseilio bywyd mewn cymunedau Iddewig canrifoedd oed. Gwaharddwyd Iddewon Rwsiaidd rhag dal rhai swyddi, cawsant eu gwrthod rhag derbyn addysg y wladwriaeth, a'u hatal rhag gadael eu hardaloedd lleol. Bu pogromau ffyrnig yn eu herbyn ac achosion llys cyhoeddus. Gweithredwyd dychryniadau systematig yn eu herbyn gan grwpiau o wylidwriaethwyr oedd yn haeddu eu cymharu ag SS y Natsïaid. Datganwyd yn swyddogol bod Iddewon yn 'elynyddion i'r Fam Rwsia'. Dychwelodd casineb Canoloesol tuag at Iddewon o ddifrif.

Anogodd yr erledigaeth adnewyddol hon feddyg o Iddew, Leo Pinsker, i

gyhoeddi pamffled yn ddiennw yn y flwyddyn 1882 gyda'r teitl: *Auto-emancipation: A Russian Jew's warning to his brethren*. Roedd y pogromau wedi argyhoeddi Pinsker na fyddai Iddewon byth yn dod o hyd i gydraddoldeb gwirioneddol a rhyddid rhag gormes tra bydden nhw'n byw ymysg cenhedloedd eraill. Yn ei farn, roedd gwrth-Semitiaeth yn seicosis etifeddol nad oedd modd ei wella. Roedd yn rhaid i Iddewon ddod o hyd i'w cartref eu hunain – yn unrhyw le.

Adeisiodd ofnau Pinsker yng ngorllewin Ewrop. Yn y flwyddyn 1894, cafwyd capten Iddewig ym myddin Ffrainc, Alfred Dreyfus, yn euog o fod yn ysbïwr Almaenaidd a'i ddedfrydu i oes o garchar. Treuliodd bum mlynedd yn y carchar cyn i gyd-Iddew dylanwadol, Emile Zola, argyhoeddi'r awdurdodau fod y cyhuddiad yn un ffug. Ond roedd y difrod wedi ei wneud. Dechreuodd y slogan 'Marwolaeth i'r Iddewon' ymddangos ym mhob un o ddinasoedd mwyaf Ffrainc.

Un o'r newyddiadurwyr oedd yn dilyn achos Dreyfus oedd Iddew, nad oedd yn ymarfer y ffydd, o Vienna, o'r enw Theodore Herzl. Pan oedd yn ddyn ifanc cafodd ei ddenu at y mudiad *Haskala*. Ond wrth iddo wrando ar y dorf y tu allan i lys barn Paris, fe dystiodd i don newydd o wrth-Semitiaeth. Nid galw am farwolaeth bradwr yr oedd y dinasyddion Ffrengig cyffredin hynny, roeddynt yn crochlefain am waed yr Iddewon. Daeth Herzl i'r canlyniad pe gallai hyn ddigwydd yn Ffrainc o fewn canrif i'r Chwyldro, gallai ddigwydd yn unrhyw le. Byddai Iddewon mewn perygl tra byddent yn byw yng ngwlad rhywun arall. Ni fyddent byth yn cael yr hawl i integreiddio.

Mynegodd ei safbwyntiau mewn pamffled o'r enw *The Jewish state* (1896) a ddisgrifiodd fel traethawd bach ar ddatrysiad y cwestiwn Iddewig- 'a little

Y Mudiad Seionaidd

essay on the solution of the Jewish question' (Jaffe, 1960, t. 12). Pan ysgrifennodd y llyfr ni wyddai ddim am Hess na Pinsker, ond fe ddaeth o hyd i gefnogwyr parod ymhlith eu dilynwyr.

Felly, i grynhoi. Un o wreiddiau Seioniaeth yw methiant *Haskala* i sicrhau, trwy adael y geto er mwyn integreiddio, y byddai Iddewon yn cadw eu hunaniaeth. Ni lwyddodd y *Maskilim* i wneud hynny. Er mwyn ceisio ffafr eu cymdogion o blith y cenedl-ddynion, cawsant eu cymhathu'n gyflym. Ond datblygodd Seioniaeth hefyd oherwydd dychweliad gwrth-Semitiaeth, oedd wedi bod yn gymharol dawel am gwpl o ganrifoedd. O ganlyniad daeth y Seionyddion cynnar i'r casgliad y byddai bywyd ar wasgar (*Diaspora*) yn y pen draw'n arwain at drychineb, casgliad a wireddwyd yn drasig gan yr Holocaust. Yr ateb i'w cyflwr oedd adennill hunaniaeth genedlaethol Iddewig a sefydlu gwladwriaeth Iddewig. Yn eu gwlad eu hunain yn unig y byddai Iddewon yn ffynnu.

Seioniaeth seciwlar

Yn y flwyddyn 1897 trefnodd Herzl y Gyngres Seioniaeth Gyntaf yn ninas Basle. (Dilynwyd hi gan gyngresau blynyddol, bob un yn fwy na'r un flaenorol.) Daethpwyd i'r casgliad y dylid sefydlu'r cartref gwir ar gyfer y bobl Iddewig ym Mhalestina. Ar 31 Awst 1897 ysgrifennodd Herzl yn ei ddyddiadur: Yn Basle, fe sefydlais i'r wladwriaeth Iddewig. Pe byddwn yn dweud hyn yn uchel heddiw, fe fyddwn yn cael fy nghyfarch â chwerthiniad cyffredinol. Efallai ymhen 5 mlynedd, ac yn sicr o fewn 50, bydd pawb yn gwybod am hyn - *'At Basle I founded the Jewish state. If I said this out loudly today, I would be greeted by universal laughter. Perhaps in 5 years, and certainly in 50, everyone will know it'* (Patai, 1960, Cyfrol II, t. 581).

Ar 17 Ionawr 1896, rhoddodd y *Jewish chronicle* sylw helaeth i safbwyntiau Herzl. Ond roedd y golygyddol yn amheugar: Prin ydym yn rhagweld dyfodol mawr i gynllun sydd yn ganlyniad anobaith - *'We hardly anticipate a great future for a scheme which is the outcome of despair'*. Roedd ei naws waradwyddus yn pwysleisio pa mor ddiymgeledd yr oedd achos Seioniaeth yn ymddangos ar y dechrau. Ond byddai hyn yn cael ei wrthbrofi. Amlinellwyd cefnogaeth y llywodraeth Brydeinig i'r cynllun yn Natganiad Balfour yn y flwyddyn 1917. Ar 28 Tachwedd 1947, pasiodd y Cenedloedd Unedig gynig oedd yn galw am greu rhaniad ym Mhalestina. Roedd gwladwriaeth Iddewig Herzl wedi ei ffurfio o fewn tri mis i'r adeg yr oedd ef, Herzl, wedi ei rhagfynegi.

Roedd y mudiad Seionaidd yn anad dim yn seciwlar yn ei ysbrydoliaeth. Roedd ganddo lawer yn gyffredin â mudiadau cenedlaethol eraill yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Nid oedd gan Herzl fawr o amser i grefydd, ond treuliodd llawer o egni yn ymweld â phenaethiaid gwladwriaethau rhyng-genedlaethol yn chwilio am gefnogaeth wleidyddol i'r fenter Iddewig. Roedd yn llwyddiannus am o leiaf dau reswm.

Gwlad wag

Roedd cydymdeimlad ag Iddewon Ewropeaidd oherwydd yr erledigaeth yn eu herbyn gan Genedl-ddynion. Yn wyneb gwrthodiad ffyrnig gan sawl gwlad, beth arall allai'r Iddewon ei wneud? Roedd angen hafan arnynt. Heblaw hynny, onid oedd y datganiad Seionaidd, a briodolwyd i'r Arglwydd Shaftesbury, yn wir: *'Tir heb bobl ar gyfer pobl heb dir'* - *'A land without a people for a people without a land'* (Goldman, 2009, t. 23)? Roedd Palestina, yn ôl pob golwg, bron iawn yn anghyfannedd. Byddai tir ar gael

Y Mudiad Seionaidd

felly i ffurfio cymunedau Iddewig heb ragfarn yn erbyn y Palestinaid.

Ond doedd y tir ddim yn wag. Yn y flwyddyn 1905, nid yn unig yr oedd yno gymuned fechan o Iddewon cynhenid, roedd yno hefyd tua 700,000 o Arabiaid, yr oedd eu hynafiaid wedi bod yno ers cyn cof. Fe wyddai'r Seionyddion hyn. Felly, pan soniwyd am 'dir heb bobl', beth oeddynt yn ei olygu?

Efallai bod yr ateb i'w gael gan Israel Zangwill, un o'r arloeswyr Seionaidd. Yn gynnar yn yr 1920au, ysgrifennodd: Os oedd yr Arglwydd Shaftesbury yn llythrennol anghywir yn disgrifio Palestina fel gwlad heb bobl, roedd yn sylfaenol gywir, oherwydd does yr un o bobloedd yr Arabiaid yn byw gydag ymddodiad agos â'r wlad, gan ddefnyddio'i ffynonellau ac yn gosod eu stamp nodweddiadol arni; ar y gorau'r cyfan sydd yno yw gwersyllfan Arabaidd'' *If Lord Shaftesbury was literally inexact in describing Palestine as a country without a people, he was essentially correct, for there is no Arab people living in intimate fusion with the country, utilizing its sources and stamping it with a characteristic impress; there is at best an Arab encampment*' (Zangwill, 1920, t. 104). Doedd gan Arabiaid Palestinaidd ddim hunaniaeth amlwg. Yn syml 'Arabiad' oedden nhw a doedden nhw ddim yn grŵp cenedlaethol adnabyddadwy. Defnyddiwyd y canfyddiad hwn i gyfiawnhau gwladychiad Seionaidd ac ennill cefnogaeth ryngwladol.

Y cysyniad trosglwyddol

Yn ddiau, credai arweinwyr y byd, fe allai'r Iddewon ddod â budd i'r wlad ansicr hon. Byddent yn gwneud i'r anialwch flodeuo. Ni fyddent yn niweidio'r boblogaeth Arabaidd, yn hytrach na'i disodli, fe fyddent yn byw mewn harmoni

gyda hi. Credid hyn yn eang gan arweinwyr gwleidyddol gorllewinol a oedd yn cefnogi dyheadau Seionaidd.

Ond pan edrychwn ar lenyddiaeth Seionaidd, daw darlun gwahanol i'r golwg. Yn y blynyddoedd cynnar iawn ysgrifennodd Herzl yn ei ddyddiadur: Pan fyddwn yn meddiannu'r wlad rhaid i ni ddifeddiannu gan bwyll yr eiddo preifat ar y stadau a gaiff eu neilltuo i ni. Ceisiwn ysbrydoli'r boblogaeth dlawd ar draws y ffin gan ennill cyflogaeth iddi yn y gwledydd trawstaith, ond gwrthod unrhyw gyflogaeth iddi yn ein gwlad ein hunain. Rhaid i'r broses o ddifeddianiaid a symud y tlodion gael ei gwneud yn arwahanol a gwyliadwrus - *'When we occupy the land we must expropriate gently the private property on the estates assigned to us. We shall try to spirit the penniless population across the border by procuring employment for it in the transit countries, while denying it any employment in our own country. Both the process of expropriation and the removal of the poor must be carried out discretely and circumspectly'* (Patai, 1960, Cyfrol I, tt. 87-88).

Yn ystod y genhedlaeth a ddilynodd Herzl, Seionydd amlwg oedd Iddew Pwylaidd, o'r enw Vladimir Jabotinsky. Datganodd mai amcan cyntaf Seioniaeth yw creu mwyafrif Iddewig ar y naill ochr o'r afon Iorddonen a'r llall - *'the first aim of Zionism is the creation of a Jewish majority on both sides of the Jordan river'* (Mendes-Flohr & Reinharz, 2011, t. 671). Er mwyn gwneud lle i'r Iddewon oedd yn ymfudo o Ewrop, byddai'n ofynnol i'r boblogaeth Arabaidd ddod o hyd i gartref newydd. Yng ngeiriau Israel Zangwill, Ni allwn ganiatáu i'r Arabiaid rwystro darn mor werthfawr o adluniad hanesyddol ... Ac felly rhaid i ni gan bwyll ddwyn perswâd arnynt i "fudo" - *'We cannot allow the Arabs to block so valuable a*

Y Mudiad Seionaidd

piece of historic reconstruction. ... And therefore we must gently persuade them to "trek" (Morris, 2004, t. 41).

Seioniaeth grefyddol

Gwrthodwyd breuddwyd Hess, Pinsker a Herzl yn bendant gan Iddewon Uniongred y cyfnod am resymau crefyddol. Yn eu barn, roedd dychwelyd i'r Wlad Sanctaidd yn groes i'r Ysgrythur. Canolbwynt y mater oedd p'run ai ymyrraeth ddwyfol neu ddynol ddylai achub cenedl yr Iddewon.

Dadleuai'r Uniongred mai gorchwyl Duw oedd dwyn ei bobl etholedig adref. Dim ond gan y Meseia, unig gynrychiolydd Duw a fyddai'n dyfod yn amser Duw ei hun, allai sefydlu gwladwriaeth Iddewig. Roedd awto-iachawdwriaeth yn gwrthddweud y traddodiad crefyddol. Felly fe wnaethon nhw fabwysiadu agwedd a-wleidyddol. Hyd heddiw, mae grwpiau o Iddewon Uwch-Uniongred, er eu bod yn byw yn Israel, yn gwrthod cydnabod bodolaeth y wladwriaeth. Maent yn dewis ynysu eu hunain mewn geteau.

Ond yn ystod ail hanner yr ugeinfed ganrif dechreuodd Seioniaeth ymddangos fel dewis deniadol iawn, hyd yn oed i lawer o Iddewon Uniongred. Cyfrannodd yr Holocost, sefydlu'r Wladwriaeth, a'r Rhyfel Chwe Diwrnod yn 1967, i gyd at benderfyniad yr Uniongred i uno'n gyffredinol â'r Seionyddion. Fe ddaethon nhw â gwleidyddiaeth i gyd-fynd â'u diwinyddiaeth. Gan apelio at Feibl a Thalmud, fe wnaethon nhw ddarparu Seioniaeth seciwlar oedd â sylfaen diwinyddol. Daethant i'r casgliad mai sefydlu'r wladwriaeth oedd y cam cyntaf at ddyfodiad y Meseia. I lawer o Iddewon Uniongred, roedd y Torah yn cyfreithloni'r wladwriaeth. Roeddynt yn

cydnabod mai'r Beibl, yng ngeiriau Ben Gurion, yw eu 'gweithred eiddo sacrosanct i Balestina' - *the Bible is their 'sacrosanct title-deed to Palestine'*.

Felly rydym yn symud oddi wrth sail resymegol seciwlar at un ddiwinyddol ar gyfer Seionyddiaeth. Mae'r hawl i dir gan y Seionyddion crefyddol â sylfaen feiblaidd iddo: yr hawl i'r tir, maint y tir.

Yr hawl i'r tir

Mae perchnogaeth tir yn un o themâu pennaf ffydd Feiblaidd. Cafodd y tir ei addo i Abraham gan Dduw, wedi ei goncro gan Josua, ond a gollwyd i'r Babiloniaid a'r Rhufeiniaid. Ond er gwaethaf pob anhawster, gwrthododd yr Iddewon gredu bod eu halltudiaeth yn barhaol. Mae litwrgi'r Pasg Iddewig yn gorffen gyda'r geiriau, 'Y flwyddyn nesaf yn Jerwsalem'.

Cadarnhawyd cyfreithloniad Beiblaidd y wladwriaeth Iddewig gan gyn Brif Rabi Israelaidd. Ar 18 Rhagfyr 1993 dosbarthodd daflenni i synagogau yn y Tiriogaethau Meddianedig gan bwysleisio fod hawl dwyfol Duw gan Iddewon i'r tir. Pan gafodd ei gyhuddo o ennyn gwrthryfel, fe atebodd: Mae unrhyw orchmynion sy'n gwrthddweud gorchmynion Moses yn wrthryfel yn erbyn Moses, yn erbyn y Torah, ac yn erbyn Iddewiaeth. Nid oes unrhyw fath o wrthryfel yn bodoli os yw'r gwrthod yn seiliedig ar ufuddhau cyfreithiau Moses - *'Any orders which contradict the orders of Moses are a rebellion against Moses, against the Torah, against Judaism. There does not exist any kind of rebellion if the refusal is based on obeying the laws of Moses'* (Prior, 1997, t. 168). Mae'r gorchymyn i wladychu gwlad yr addewid yn ymddangos yn aml yn y Beibl. Felly fe ddaw breuddwyd yr Iddew yn hunllef i'r Palestiniad.

Y Mudiad Seionaidd

Dimensiynau Tiriogaethol

Mae'r anghydfod cyfredol yn ymwneud â diffinio ffiniau yn ogystal â hawliau i diriogaeth. Sut y dylid diffinio'r 'tir'? Mae'r Beibl yn darparu'r ateb: 'Eich eiddo chwi fydd pobman y bydd gwadn eich troed yn sengi arno, o'r anialwch hyd Lebanon, ac o'r afon, afon Ewfrates hyd fôr y gorllewin' (Deut. 11:24). Mae'r cyfeirnod map Beiblaidd yn hollol eglur, ond nid yw'n cymryd llawer o ddychymyg i werthfawrogi cymaint o ffrwydryn gwleidyddol y mae'n ei gynnwys pe derbynir ef yn llythrennol. Yn union fel y gallasai gwleidyddion gyfeirio at ffiniau wedi'u cyflyru'n hanesyddol, mae Iddewon Uniongred yn sôn am ffiniau wedi'u cyflyru'n ddiwinyddol. Ffin oruwchnaturiol sydd i'r Wlad Sanctaidd. Ond mewn unrhyw drafodaethau ar ffiniau beth sy'n cyfrif, realaeth hanesyddol a gwleidyddol neu destun Beiblaidd hynafol?

Ar y mater hwn o gyswllt Iddewiaeth ag un darn penodol o dir, ysgrifennodd academydd Americanaidd blaengar, Jacob Petuchowski: Pan fydd apolegwyr o blaid Israel yn cyfeirio at bwysigrwydd "tir" mewn crefydd Feiblaidd, fe ddylai ein cwestiwn cyntaf fod yn gofyn a ddylai'r apolegwyr hyn o ddifrif fod eisiau anfon Iddewiaeth yn ôl i'w gyfnod Beiblaidd, h.y. a ydyn nhw hefyd yn dyheu am gael ail-gyflwyno aberthu anifeiliaid, goddefiad swyddogol o gaethwasiaeth, y gosb eithaf am rai troseddau defodol, a chyfansoddiad o wladwriaeth theocrataidd. Neu a oes gennym yma, yn syml, bwyslais ar rôl y 'tir' ar gyfer crefydd Feiblaidd sydd wedi ei

ddatgymalu'n gyfan gwbl o'i gyd-destun - fel y byddai yn ei ddatblygiad Iddewig pellach na fyddai'r grefydd hon wedi bod drwy amrywiaeth o gamau a arweiniodd yn y diwedd at annibyniaeth y grefydd Iddewig oddi wrth y tir? - 'When pro-Israeli apologists refer to the importance of "land" in biblical religion, our first question should be whether these apologists really want to set Judaism back to its biblical phase, i.e. whether they also long for the reintroduction of animal sacrifices, the official toleration of slavery, the death penalty for certain ritual transgressions, and the constitution of a theocratic state. Or do we have here simply an emphasis on the role of the 'land' for biblical religion torn right out of its context - as though in its further Jewish development this religion had not gone through a variety of stages which finally led to an independence of the Jewish religion from the land?' (Küng, 1992, t.562).

Mae dimensiwn crefyddol Seioniaeth yn codi cwestiynau moesol pwysig: Beth sy'n digwydd pan fydd yr addewid dwyfol o dir yn gwrthdaro gyda hawliau'r rhai sydd eisoes yn ei ddal? A all rhywun gymryd adnod allan o'i thestun a'i chymhwysu'n uniongyrchol, a heb ddehongliad, i'r unfed ganrif ar hugain? A all rhywun wrthod datblygiadau hanesyddol a gwleidyddol 2,500 o flynyddoedd, a gwneud gofynion tiriogaethol penodol, yn syml trwy apelio at y Beibl? Bydd yr atebion yn dibynnu ar sut y bydd rhywun yn trafod llyfr sanctaidd.

Y Mudiad Seionaidd

Pwyntiau trafod

1. Beth anogodd yr arloeswyr Seionaidd i alw am famwlad Iddewig?
2. Pam mae Seionyddion, ddoe a heddiw, wedi wynebu gwrthwynebiad oddi wrth eu cyd-Iddewon?
3. Sut mae Seionyddion crefyddol yn cyfiawnhau polisïau'r mudiad?

Cyfeiriadau

- Goldman, Shalom (2009). *Zeal for Zion*. Chapel Hill, North Carolina: University of North Carolina Press.
- Jaffe, Benjamin (1960). *A Herzl Reader*. Jerusalem: Jewish Agency.
- Küng, Hans (1992). *Judaism: The religious situation of our time*. London: SCM Press.
- Mendes-Flohr, P., & Reinharz, J. (2011). *The Jew in the modern world: A documentary history*. Oxford: Oxford University Press.
- Morris, Benny (2004). *The birth of the Palestinian refugee problem revisited*. Cambridge: Cambridge University Press.
- Patai, R. (Ed.) (1960). *The complete diaries of Theodor Herzl*. New York: Herzl Press, Vols I and II.
- Prior, Michael (1997). *The Bible and colonialism: A moral critique*. Sheffield: Sheffield Academic Press.
- Zangwill, Israel (1920). *The voice of Jerusalem*. London: Heinemann.

Mae'r Athro Gareth Lloyd Jones yn Athro Emeritws Diwinyddiaeth ac Astudiaethau Crefyddol, Prifysgol Bangor, Cymru. Ef yw awdur: The discovery of Hebrew in Tudor England: A third language (Manchester: Manchester University Press, 1983); Robert Wakefield: On the three languages (Binghamton, New York: Renaissance Texts Series, Vol. 13, 1989); Lleisiau o'r Llundw: Her yr Holocost i'r Cristion (Gee: Dinbych, 1994); The Bones of Joseph: From the ancient texts to the modern Church (Grand Rapids, Michigan: Eerdmans, 1997); Detholion o Lyfr Jeremeia (Caernarfon: Pantycelyn, 2003).

Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Paul Wilson

Mae'r erthygl hon yn amlinellu natur a tharddiad Ffwdamentalïaeth Gristnogol fel ffenomen Ôl-oleuedigaeth orllewinol.

Cyswllt manyleb: CBAC RS1/2 CS: Cyflwyniad i Grefydd yn y Gymdeithas Gyfoes (AS), 3. Crefydd a Chymuned; RS4 HE: Crefydd a'r Profiad Dynol (A2), 1. Awdurdod Crefyddol.

Beth yw Ffwdamentalïaeth Gristnogol?

Ym Mhrydain, mae'r gair 'ffwdamentalïaeth' yn cael ei ddefnyddio gan amlaf fel term o waradwydd gan ei beirniaid. Nid yw hyn mor wir yn UDA, er bod Cristnogion ar ddwy ochr môr Iwerydd yn gwisgo'r bathodyn â balchder. Mae hefyd rai pobl y mae eu safbwynt diwinyddol yn ymddangos yn yr un peth â safbwynt ffwdamentalwyr hunan addefedig, ond sy'n cadw pellter o'r enw hwnnw, ac yn well ganddyn nhw gael eu galw'n 'efengylwyr ceidwadol'.

Er mwyn gwneud synnwyr o ffwdamentalïaeth, mae angen i ni ei weld yn ei gyd-destun hanesyddol. Roedd y gymdeithas Ganoloesol yn Ewrop yn cael ei dal ynghyd gan barch tuag at awdurdod, gydag Eglwysi a Thaleithiau yn cefnogi ei gilydd mewn cynghrair o rym rydyn ni'n ei galw heddiw'n Wledydd Cred (*Christendom*).

Fe achosodd llygredd cyffredin yn yr Eglwys - sy'n anochel efallai oherwydd ei chysylltiadau â'r Wladwriaeth - gynydd mewn mudiadau protest Cristnogol sylfaenol, fel y Waldensiaid yn Ffrainc a'r Lolardiaid yn Lloegr. Ac ar ôl i'r broses o argraffu gael ei dyfeisio, fe gynyddodd protestiadau o'r fath yn ystod Diwygiad Protestannaidd yr unfed ganrif ar bymtheg.

Fodd bynnag, cyfnod yr Oleuedigaeth ddwy ganrif yn ddiweddarach a roddodd yr ergyd farwol i Wledydd Cred. Llygredd yn y Wladwriaeth (brenhinoedd ac uchelwyr) oedd yn cael ei amlygu erbyn hyn. Cafodd hawl ddwyfol y brenhinoedd ei disodli gan y Contract Cymdeithasol, pryd y dewiswyd y llywodraeth trwy gydsyniad y bobl. Rheswm, yn hytrach na pharch di-gwestiwn at awdurdod oedd yn nodweddiadol o'r oes rydyn ni yn awr yn ei galw'n fodernedd.

Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Galluogodd rhyddid deallusol modernedd ddamcanïaethau gwyddonol fel dewisiadau naturiol, ond nid heb beth ymryson. Roedd y croestyniad posib rhwng gwyddoniaeth a'r Beibl, ynghyd â materion yn ymwneud â hanesyddiaeth awduraeth ac ambell amryfusedd mewnol, yn codi beirniadaeth Feiblaidd yn enwedig yn yr Almaen, ond hefyd yn Lloegr a Gogledd America.

Roedd yr ymateb ceidwadol yn America'n egnïol. Yn 1910 cyhoeddodd Cydgynulliad Cyffredinol Presbyteriaidd UDA yr hyn yr oedd yn ei ystyried yn hanfodion y ffydd Gristnogol. Dosbarthwyd y cyhoeddiad mewn deuddeg llyfr ('The Fundamentals') rhwng 1910 a 1915, a'u hail gadarnhau gan y Cydgynulliad yn 1916. Yr hanfodion oedd:

- anffaeledigrwydd yr Ysgrythur,
- genedigaeth wryfol Iesu,
- natur ddirprwyol marwolaeth Iesu fel aberth i fodloni cyfiawnder dwyfol ('*sacrifice to satisfy divine justice*'),
- atgyfodiad corfforol Iesu, a
- dilysrwydd gwyrthiau Iesu. (Schlect, 2004)

Er bod amrywiadau mân yn y 'pum pwynt', anffaeledigrwydd yr Ysgrythur oedd bob amser ar ben y rhestr.


Mewn defnydd poblogaidd, caiff ffwdamentalwyr eu nodweddu fel bod yn cymryd y Beibl yn llythrennol ('*taking the Bible literally*') (Barr, 1981, t. 1; Edwards & Stott, 1998, t. 91). Mae James Barr wedi dadlau nad dyna'r achos; ei safbwynt ef yw mai ymrwymiad i anffaeledigrwydd, yn hytrach na dehongliad llythrennol, yw nodwedd nodweddiadol ffwdamentalwyr, sy'n troi a throsi'n ôl ac ymlaen rhwng dehongliad llythrennol er mwyn cadw anffaeledigrwydd y Beibl

(*who 'twist and turn back and forward between literal and non-literal interpretation.'*) (Barr, 1981, t. 40)

Mewn ymateb i gyhuddiad David Edwards o duedd i ymdroi tuag at ffwdamentalïaeth (a '*lingering tendency towards fundamentalism*', mae Stott yn cyferbynnu nodweddiad *hanesyddol* ffwdamentalïaeth, y mae ef yn eu hystyried yn nobl, gyda rhai tueddiadau ffwdamentalïaeth *fodern*, yn cynnwys damcanïaeth arddyweddiad ('*dictation theory*') mecanyddol o ysbrydoliaeth Feiblaidd, y mae ef yn hawlio bod efengylwyr yn ei gwrthod (Edwards & Stott, 1998, tt. 89-91).

Fodd bynnag, mae unrhyw ddamcanïaeth ar darddiad yr Ysgrythur, sydd hyd yn oed yn tebygu'r mymryn lleiaf i safbwynt mecanyddol, yn dueddol o fod yn elyniaethus tuag at ysgoloriaeth hanesyddol-feirniadol. Hyd yn oed heb ddysgeidiaeth o'r fath, mae grwpiau o bob tu i fôr Iwerydd sy'n trin y Beibl *fel petai* Duw wedi ei arddyweddyd, a thrwy hynny'n cyflwyno ysgoloriaeth feirniadol ar y gorau'n weithgaredd peryglus, tebyg i afael yn arch Duw (2 Sam. 6:1-7).

Felly, ble mae hynny'n ein gadael ni? Mae Alan Jamieson yn mabwysiadu safbwynt ambarél o 'Efengyliaeth' fel prif ffrwd yn awr, y gellir adnabod amrywiaeth o is-fathau oddi tani (Jamieson, 2002, tt. 22-23).



Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Mae hyn yn caniatáu i bobl ddisgrifio'u hunain fel bod yn efengylaidd heb gael eu galw'n efengylwyr ceidwadol neu ffwdamentalwyr (Barr, 1981, t.61; Jamieson, 2002, t. 22). Yn yr un modd, mae'n caniatáu ffwdamentalwyr i alw'u hunain yn efengylaidd er na fyddai pob un yn dymuno gwneud hynny: mae Harold Lindsell yn meddwl bod y term *Efengylaidd* wedi dod yn beth mor ddisail ei fod wedi colli ei ddefnyddioldeb ac mae'r awgrym y dylai'r rhai sy'n credu yn nefnydd caeth y gair "anffaeledigrwydd" alw eu hunain yn ffwdamentalwyr' (Lindsell, 1979, tt. 319-320; Webber, 2002, t. 35).

At bwrpas yr erthygl hon, rwy'n bwriadu ochri â Lindsell a Barr (cywelyaid annhebygol), oherwydd bod credu mewn anffaeledigrwydd yn ymddangos i mi fel y rhaniad hanfodol. Felly, rwyf wedi hollti ambarél Jamieson i lawr ei chanol, ac wedi rhoi efengyliaeth geidwadol John Stott gyda ffwdamentalïaeth, pa un a yw'n hoffi hynny ai peidio.

Ymdrin â'r Beibl fel ffwdamentalydd

Ffurfiwyd athrawiaeth anffaeledigrwydd er mwyn cynyddu hyder pobl yn y Beibl. Ond mae'n athrawiaeth fregus, yn enwedig os yw'n cael ei defnyddio fel sail i adeiladu athrawiaethau eraill, dadleuadwy bwysicach, arni. Does dim ond eisiau un camsyniad neu wrthddywediad yn y Beibl i beri i'r strwythur cyfan ddymchwel. Yn eironig felly mae athrawiaeth sy'n cael ei chyflwyno i amddiffyn y Beibl ynnddi ei hun angen ei hamddiffyn, gan nad yw'n anodd dod o hyd i gamsyniadau (honedig) neu anghysondebau. (Edwards & Stott, 1998, tt. 63-65)

Un ffordd o fynd i'r afael â hyn yw honni bod 'anffaeledigrwydd' ddim ond yn wir yn achos testunau gwreiddiol, nid yn y copïau o gopïau sydd gennym ni

heddiw. I fod yn deg, mae datganiadau ffwdamentalïaidd ar anffaeledigrwydd yn gyffredinol wedi eu cyfyngu i'r llofnodion gwreiddiol (*'the original autographs'*). Yn y pen draw, all y meini prawf y mae testunau'n cael eu hystyried yn gopïau triw o'r gwreiddiol fod yn ddim ond yr hyn sy'n ymddangos yn rhesymol - *'what seems reasonable'* (sydd ddim yn ddigon i wahanu ffwdamentalwyr oddi wrth ryddfrydwyr), neu'r gwadiad (ar lefel wirebol) o unrhyw bosibilrwydd o anghysondebau yn y llofnodion.

Ond bydd cymryd gormod o gysgod yma ddim ond yn arwain at y canlyniad nad ydyn ni'n gwybod beth mae'r Beibl yn ei ddweud, gan nad oes un canlyniad gan neb. Mae cymaint o ymdrech wedi ei gwneud i ddehongli'r Ysgrythur mewn ffordd sy'n gyson ag anffaeledigrwydd, heb gyrchu at y cymal *'get-out clause'* eithaf. Yn achos anghysondebau (honedig) mewnol – er enghraifft rhwng adroddiadau cyfochrog yn yr Efengylau, neu yn Llyfrau'r Brenhinoedd a'r Cronicleu – y flaenoriaeth oedd aiffm, mae adroddiad Luc am iachau dyn dall yn cael ei osod pan oedd Iesu ar ei ffordd i Jericho, tra mae Mathew a Marc yn gosod y digwyddiad wrth i Iesu adael Jericho. (Cymharwch Mathew. 20:29, Marc 10:46, Luc 18:35). Does dim yn ddibynnol ar hyn, *ar wahân i athrawiaeth anffaeledigrwydd*, ond mae wedi bod yn mynd â bryd dehongliadau ffwdamentalïaidd (e.e. Math. 20:29 yn Gaebelein, 2006).

Y canlyniad yw gwrthdroad rolau: tra roedd y syniad o anffaeledigrwydd wedi ei gyflwyno (neu wedi'i wneud yn amlwg) *er mwyn ategu'r Beibl*, mae'r Beibl yn awr yn cael ei ddehongli *er mwyn ategu'r syniad o anffaeledigrwydd*.

Beibl	Anffaeledigrwydd
Anffaeledigrwydd	Beibl

Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Unwaith roedd y syniad o ffynhonnell wedi ei chydabod, cynyddodd cwmpas y math o anghysondebau, oherwydd roedd posib eu gweld nid yn unig rhwng llyfrau cyfochrog ond eto rhwng ffynonellau cyfochrog o fewn llyfr unigol.

Mae James Barr yn cyfeirio at stori Hagar ac Ishmael (Barr, 1981, tt. 46-47, 56). Yn Genesis 21 cawn hanes Hagar yn cario Ishmael ar ei hysgwydd i'r anialwch, ac yn ei daflu o dan berth. Y syniad sy'n cael ei gyfleu yma yw mai plentyn bach yw Ishmael. Ond yn ôl Genesis 17 roedd Ishmael yn 13 oed pan gafodd Isaac ei eni, gan olygu ei fod yn 17 oed yn y rhan o'r stori sy'n sôn am yr anialwch. Nid yw'n syndod bod ysgolheigion yn gweld gwahanol ffynonellau tu ôl i'r stori'n anghymarus yn ei manylion. I ffwdamentalwyr, mae hyn yn ymddangos yn ymosodiad dau ddyblyg, nid yn unig oherwydd bod anghytundeb mewn manylion yn eithrio cydgorio, ond hefyd am fod y gred mai Moses oedd awdur y Pentateuch yn eithrio ffynonellau.

Ffwdamentalïaeth – ffurf ar sylfaenaeth

Er bod Diwygiad Protestannaidd yr unfed ganrif ar bymtheg a ffwdamentalïaeth yr ugeinfed ganrif yn ymddangos yn fudiadau 'yn ôl i'r Beibl', mae'r ddau fudiad yn gorwedd o boptu Goleuedigaeth y ddeunawfed ganrif. Mae hyn yn arwyddocaol oherwydd bod yr Oes Oleuedig (Oes Rheswm) wedi rhoi cychwyn i fodernedd, a adfywiodd ffordd o feddwl o'r enw sylfaenaeth (*foundationalism*).

Mae Sylfaenaeth, ar ei ffurf gryfaf, yn dibynnu ar gredoau sylfaenol (sylfeini) sy'n cael eu hystyried yn wir heb fod angen eu cyfiawnhau. Enghreifftiau yw Gwirebau Geometreg Euclid, neu wirioneddau hunaneglur Datganiaeth

Annibyniaeth America. Yna, mae credoau pellach yn deillio o'r rhain trwy resymu rhesymegol (diddwythiad). Mae'n eglur fod y system gred y mae rhywun wedi ei chael yn dibynnu ar y man(nau) cychwyn. Er enghraifft, pe byddai gwirebau Geometreg ychydig yn wahanol, fe fydden ni'n diweddu â Geometreg wahanol (heb fod yn Euclidaidd).

Roedd Sylfaenaeth yn gyfarwydd i Aristotlys, a oedd yn ei hystyried yn ddamcaniaeth gwybodaeth foddhaol iawn, ond fe ballodd ei phoblogrwydd nes y rhoddodd yr Oleuedigaeth hwb iddi. Roedd datganiad enwog Descartes, '*Cogito, ergo sum*' yn rhan o'i ymchwil i ddod o hyd i sylfaen ddibynadwy ar gyfer gwybodaeth. Er bod yr Oleuedigaeth yn cwestiynu awdurdodau traddodiadol, fe wnaeth annog ymchwil ynghylch credoau sylfaenol mewn profiad. Daeth hyn yn sail ar gyfer gwyddoniaeth fodern (arbrofol). Er bod damcaniaethau gwyddonol (eglurhad ar sylwadau) bob amser wedi bod yn ansicr, roedd iddyn nhw'r fantais (yn wahanol i Geometreg) o ddweud rhywbeth am y byd go iawn.

Yn achos sylfaenaethyddion, mae ffurf diwinyddiaeth Gristnogol yn dibynnu ar yr hyn sy'n cael ei ystyried fel sylfaen ddiamheuol. I symleiddio pethau ychydig, mae gwahanol ffurfiau o Gristnogaeth yn codi, yn dibynnu a yw'r Beibl, traddodiad Eglwysig neu brofiad yn cael ei drin fel sylfaen ddibynadwy. Roedd y ffwdamentalwyr cynnar, wrth bryderu bod diwinyddion rhyfeddol yn rhoi mwy o barch i ddamcaniaethau secwlar nac i sylfaen hanesyddol eu ffydd, yn dewis Beibl anffaeledig fel y sail i'w system ddiwinyddol. Mae diwinyddiaeth systematig yn y traddodiad hwn yn dechrau'n drawiadol, nid gydag athrawiaeth Duw, ond gydag athrawiaeth yr Ysgrythur (e.e. Grudem, 1994; Milne, 1998).

Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Er bod athrawon cynharach, fel Awstin a Luther, wedi bod â golwg ddwys ar yr Ysgrythur, roedd dehongliad fel arfer yn ddarostyngedig i adolygiad yng ngoleuni gwybodaeth newydd. Daeth ffwdamentalïaeth, sy'n hanfodol yn fudiad amddiffynnol, wedi'i selio'n gyfan gwbl ('*hermetically sealed*'), yn ddrwgdybus o'r byd, ac yn anhydraidd i wybodaeth newydd. Nid yw'n anghyffredin, er enghraifft, i Ffwdamentalwyr ddal at y safbwynt bod y cosmos yn llai na 10,000 o flynyddoedd oed, waeth faint o dystiolaeth gaiff ei chyflwyno i herio hyn.

Beth am y dyfodol?

Gellid disgrifio'r eglwysi mwyaf bywiog sy'n tyfu'n gyflym ym Mhrydain fel rhai ffwdamentalïaidd. Oherwydd bod ffin eglur wedi bod rhwng y rhai hynny sydd y tu mewn i Gristnogaeth ffwdamentalïaidd a'r rhai hynny sydd y tu allan, mae croesi'r ffin wedi bod yn aml oherwydd tröedigaethau argyfwng, a hynny'n arwain at gyflwyniad i'r pecyn cyfan, yn cynnwys anffaeledigrwydd

Beiblaidd. Ond, er gwaetha'r pellhau hwn o'r byd (secwlar), ffurf ar sylfaenaeth yn hanfodol yw Ffwdamentalïaeth, ac felly'n rhwym i fodernedd. Rydym yn awr mewn oes lle mae modernedd ei hun yn chwalu. Ynghyd â hynny, mae sylfaenaeth fel damcaniaeth o wybodaeth wedi ei chael yn brin, oherwydd bod credoau sylfaenol pur yn brin a hefyd oherwydd bod y rhai hynny sydd i'w cael ddim o angenrheidrwydd yn arwain i unman.

Mae dau ganlyniad wedi bod i hyn yn achos tröedigaethau. Un yw bod tröedigaeth i Gristnogaeth yn amlach yn debycach i broses nag i argyfwng, gydag amser i fyfrio ar gynhwysion y ffydd (Finney, 1992, pennod. 3; McLaren, 1992, penodau. 13-14). Y llall yw bod tröedigaeth y ffordd arall - nid o ffydd i anffyddiaeth, ond o fyd caeedig ffwdamentalïaeth i broses o ddadelfennu ac archwilio cynhwysion y ffydd a oedd wedi ei chofleidio ynghynt fel bargaen becyn (Jamieson, 2002; Tomlinson, 1995, 2008).

Geirfa

Gwireb (axiom) yw datganiad sy'n cael ei gymryd fel bod yn wir heb angen cael ei brofi.

Yr Oleuedigaeth (Enlightenment): syniadaeth athronyddol, yn bennaf yn Ewrop, yn y ddeunawfed ganrif a oedd yn annog pobl i ddod i'w casgliadau eu hunain trwy resymu.

Anffaeledigrwydd (inerrancy): safbwynt ynghylch y Beibl sy'n cadw'r testun rhag camsyniadau ac felly'n ddibynadwy. Fel arfer, mae hyn yn golygu bod anghysondebau mewnl yn cael eu diystyru, fel hefyd

wrthddywediadau â hanes a gwyddoniaeth.

Modernedd (Modernity) yw ffordd o feddwl a ddeilliodd o'r Oleuedigaeth. Ar y dechrau, credid y byddai modernedd yn datrys holl broblemau'r byd.

Ôl-fodernedd (Postmodernity): oherwydd i fodernedd brofi ei fod yn annigonol mae newid ar droes mewn ffordd o feddwl orllewinol. Mae nodweddion fel dilysrwydd wedi dod yn bwysicach na rheswm yn unig.

Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Dirprwyol (substitutionary): ystyrir marwolaeth Iesu fel marwolaeth ddirprwyol (neu 'aberth dirprwyol') gan y rhai hynny sy'n credu ei fod yn dioddef cosb yn lle

pechaduriaid. Nid dyma'r unig ffordd o ddeall marwolaeth Iesu, ond dyma'r safbwynt mwyaf cyffredinol ymysg efengylwyr.

Cysylltau

<http://thegospelcoalition.org/article/the-difference-between-original-autographs-and-original-texts/> (M. J. Kruger explains 'original autographs')

<http://mb-soft.com/believe/text/fundamen.htm> (C.T. McIntyre (1984). Fundamentalism. In *Evangelical dictionary of theology*. Ed. W. A. Elwell, Basingstoke: Marshall Morgan & Scott)

<http://www.credenda.org/archive/issues/16-4historia.php> (Schlect, C. (2004) Fundamentalism and Presbyterianism. *Credenda*, 16(4))

<http://www.iep.utm.edu/found-ep/> (Ted Poston on foundationalism, *Internet encyclopedia of philosophy*)

http://en.wikipedia.org/wiki/Euclidean_geometry (Euclidean geometry - an example of an axiomatic system)

http://www.archives.gov/exhibits/charters/declaration_transcript.html (The American Declaration of Independence)

Pwyntiau trafod

1. Mae'r awdur yn awgrymu bod gwahanol ffurfiau o Gristnogaeth yn codi, yn dibynnu a yw'r Beibl, traddodiad Eglwysig neu brofiad yn cael ei drin fel sylfaen ddibynadwy. Sut byddech chi'n labelu'r gwahanol ffurfiau hyn o Gristnogaeth?
2. Os nad yw'r Beibl heb ei gamsyniadau, a yw o unrhyw werth?
3. 'Mae'r Beibl yn rhy dda ac yn rhy bwysig i'w adael i'r rhai sydd ddim am feddwl yn feirniadol amdano. Ac

yn onest, a yw'n rhy beryglus? - *The Bible is too good and too important to be left to those who won't think critically about it. And frankly, it is too dangerous*' (Brian McLaren, <http://www.patheos.com/Topics/2014-Religious-Trends/Progressive-Christian/The-Problem-Isnt-the-Bible-Brian-McLaren-06182014.html>). Trafodwch y dyfyniad.

Ffwdamentalïaeth fel Ymateb i Feirniadaeth Feiblaidd

Cyfeiriadau

- Barr, J. (1981). *Fundamentalism*. London: SCM Press.
- Edwards, D.L., & Stott, J. (1998). *Essentials*. London: Hodder and Stoughton.
- Finney, J. (1992). *Finding faith today: How does it happen?* Swindon: Bible Society.
- Gaebelein, F. (2006). *Expositors' Bible commentary*. Grand Rapids, Michigan: Zondervan CD ROM.
- Grudem, W. (1994). *Systematic theology*. Grand Rapids, Michigan: Zondervan.
- Hammond, T.C. (1936). *Inspiration and Authority*. Leicester, IVP.
- Hebert, G. (1957). *Fundamentalism and the Church of God*. London: SCM Press.
- Jamieson, A. (2002). *A churchless faith*. London: SPCK.
- Lindsell, H. (1979). *The Bible in the balance*. Grand Rapids, Michigan: Zondervan.
- McLaren, B.D. (1992). *More ready than you realize*. Grand Rapids, Michigan: Zondervan.
- Milne, B. (1998). *Know the truth. A handbook of Christian belief*. Leicester: IVP.
- Packer, J.I. (1996). *'Fundamentalism' and the Word of God*. Leicester: IVP.
- Tomlinson, D. (1995). *The post evangelical*. London: SPCK.
- Tomlinson, D. (2008). *Re-enchanting Christianity*. Norwich: Canterbury Press.
- Webber, R.E. (2002). *The younger evangelicals*. Grand Rapids, Michigan: Baker Books.

Mae Paul Wilson, cyn Uwch Athro yng Ngholeg Chweched Dosbarth Bede, Billingham, â graddau meistr mewn mathemateg a diwinyddiaeth. Yn awr, wedi ymddeol, mae'n dal wrthi'n addysgu'r ddwy ddisgyblaeth, er pleser.

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

Declan O'Sullivan

Mae'r erthygl hon yn diffinio'r term jihad a geiriau perthnasol eraill, ac yn egluro sut y gall eu hystyr newid dros amser. Mae'n trafod y jihad mawr a'r jihad llai, beth yw'r ddealltwriaeth o 'ryfel sanctaidd', a'r syniad o jihad fel y 'chweched golofn' o Islam.

Cyswllt manyleb: CBAC RS1/2 WR: Astudio Crefyddau'r Gorllewin (AS): Cyflwyniad i Islam, 3. Credoau ac Arferion; AC3 WR: Crefyddau'r Gorllewin (A2): Astudio Islam, 4. Islam yn y Gymdeithas Gyfoes; AC3 ETH: Astudio Crefydd a Moeseg (A2), 3. Moeseg Rhyfel

Diffiniad o *jihād*

Mae'n ymddangos bod y naill brif gangen o Islam a'r llall, y Sunni a'r Shi'a, yn ymdrin â'u dealltwriaeth o *jihad* mewn ffordd sy'n debyg iawn. Daw'r term o'r ferf Arabaidd *jāhada*, sy'n golygu 'i frwydro', 'i ymgeisio' ac 'i ymdrechu' (Middleton, 1992; gweler hefyd Nygard, 1996; Hoveyda, 1998; Knapp, 2003). *Jāhada* hefyd yw gwraidd y term *mujahideen*: Golyga Yn ieithyddol yn ogystal ag fel term technegol, mae '*Jihad*, yn golygu "brwydro" ac yn perthyn o ran geirdarddiad i'r gair *mujahadah*, sydd hefyd yn golygu ymdrechu neu ymryson (Royal Aal al-Bayt Institute for Islamic Thought, 2009).

Newidiadau mewn ystyr

Dros amser, fodd bynnag, gall ystyr penodol geiriau newid, yn arbennig felly trwy gael eu defnyddio gan y cyfryngau

torfol a thrwy ddefnydd llafar a brodorol. Bellach y ddealltwriaeth gyffredin o'r gair *Jihad* yw brwydro *treisgar*; mae'r gair *Mujahideen*, sy'n tarddu o 'berson sy'n brwydro *jihad*', wedi dod yn derm ar gyfer 'ymladdwyr gerila mewn gwledydd Islamaidd'; a diffinnir *jihadi* fel 'person sy'n ymwneud â *jihad*'; milwriaethwr Islamaidd'.

[\(<http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/mujahideen>](http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/mujahideen)

[\(<http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/jihadi>\)](http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/jihadi)

Mae'r geiriau hyn bellach yn perthyn yn uniongyrchol i grwpiau terfysgol sydd eu hunain yn ymddangos fel eu bod wedi eu trawsfeddiannu'n fwriadol er mwyn cefnogi eu hagendau eu hunain: gan ddefnyddio *jihad* a themau perthnasol i ddisgrifio gweithredoedd terfysgol, lladdfa, marwolaeth a dinistr a ymgwymerir

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

gan grwpiau milwriaethus sy'n ymladd yn erbyn ffigyrau awdurdod y maent yn eu casáu, gan ddefnyddio crefydd fel sylfaen eu cymhelliad. Mae eithafwyr a radicaliaid yn y Sunni yn ogystal â'r Shi'a Islam wedi mabwysiadu'r cyfryw ieithwedd i hyrwyddo eu hachosion. Lledaenodd Ayatollah Khomeini (1902-1989), yn ystod ei Chwyldro Diwylliannol yn Iran yn y flwyddyn 1979, ei safbwynt bod addysg mewn gwir Islam yn cymell y boblogaeth gyfan i ddod yn *mujāhids* [yn llythrennol, 'ymdrechwyr ar ran Duw'] - '*true Islam*' will motivate '*the entire population to become mujāhids*' [literally, '*strugglers for God*'] (Knapp, 2003, t. 89).

Ond ni ellir dod o hyd i'r term 'milwriaethwr Islamaidd' yng nghydestun diwinyddol oddi mewn i lenyddiaeth Islamaidd. Yn wir mae'n 'ocsimoron' (gwrthddywediad mewn termau). Ni all crefyddau'r byd fel Islam, Cristnogaeth, Hindŵaeth na Bwdhaeth orwedd yn hapus ochr yn ochr â'r gair 'terfysgwr' neu 'milwriaethwr' os yw'r ddau derm yn cynrychioli ideolegau diametraidd gwrthwynebol. Am y rhesymau hyn y daeth yn eglur iawn i wleidyddion a newyddiadurwyr, ar ddechrau'r 'Trafferthion' yng Ngogledd Iwerddon yn y 1970au, na ddylent gyfeirio at yr IRA (*Irish Republican Army*) fel 'terfysgwyr Catholig', nac at y grwpiau milwriaethus Unoliaethol a Theyrngarol fel 'terfysgwyr Protestannaidd' (Armstrong, 2005; Taylor, 2013). Fe ddylem nodi fod 'Islam', yn dod o'r term Arabaidd '*islām*' sy'n cael ei gyfieithu fel 'ymostyngiad' ac mae hyn yn tarddu o'r term '*aslama*': i ymostwng yr hunan i Allah/Duw'; a daw'r gair 'Muslim' o'r un gwreiddyn ac mae'n golygu un sydd yn gyfranogwr gweithredol o '*aslama*'.

Mae'r defnydd llafar o'r gair 'Wicked' yn enghraifft seciwlar o newid y diffiniad o air Seisnig i fod yn rhywbeth sydd yn

ddiametraidd groes i'w ystyr gwreiddiol. Caiff y gair ei ddiffinio'n draddodiadol fel rhywbeth 'drwg neu'n foesol anghywir' sydd yn 'annymunol y tu hwnt'. Dros y degawdau diwethaf, fodd bynnag, mae'r union air wedi datblygu ystyr newydd sbon i gyfeirio at rywbeth sy'n cael ei ystyried yn 'rhagorol' neu 'rhyfeddol' (<http://www.oxforddictionaries.com/definition/english/wicked>). Mae rhywbeth tebyg wedi digwydd gyda'r gair *jihād*, ond i'r gwrthwyneb!

Jihād mwyaf a jihād lleiaf

Cyfeirir at ddwy lefel o *jihad* mewn Arabeg fel *jihad* mwyaf (*al-jihad al-akbar*) a *jihad* lleiaf (*al-jihad al-aṣghar*) (Firestone, 2003; Schuett, 2006). Fe ddiffiniodd Muhammad Sa'id 'Ashmawy, y cyn prif farnwr yn yr Uchel Lys yng Nghairo, y raddfa eang o ystyron o *jihad* mewn gwahanol elfennau sy'n gallu bod naill ai'n fewnol, fel yn y frwydr oddi mewn i'r hunan wrth fyw bywyd gonest neu'n allanol i amddiffyn Islam - '*which can be either internal, as in the struggle within oneself to live an upright life or external to defend Islam*' (Fluehr-Lobban, 1998; gweler hefyd O'Sullivan, 1999). Mae *Jihad* yn y Qur'an ac yn yr *hadith* (traddodiadau Proffwydol) yn golygu'r hunanreolaeth a'r hunan-goethder a berthyn i rywun. Mae'r ystyr hwn o'r gair wedi cael ei briodoli i'r hyn a ddisgrifiodd y Proffwyd Muhammad ei hun fel y '*jihad* mwyaf'. Hon yw'r frwydr ysbrydol oddi mewn i'r hunan yn erbyn pechod. Mae un *hadith* yng nghasgliad Ibn Majah yn dyfynnu fel y disgrifiodd y Proffwyd y ffordd orau y dylai Mwslimiaid berfformio *jihad*, dull y cyfeirir yn aml ato fel '*jihad* y tafod': y ffurf orau o *jihad* yw ynganu gair o wirionedd wrth lywodraethwr gormesol - '*The best form of jihād is to utter a word of truth to a tyrannical ruler*' (Ibn Majah, 1981; gweler hefyd Firestone, 1999 a

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

The Royal Aal al-Bayt Institute for Islamic Thought, 2009).

Mae gan yr 'ymryson' mewnol i gwestiynu ffordd o fyw a berthyn i rywun, gan anelu at dduwioldeb a gostyngeddwrwydd a dilyn cod ymddygiad Duw, fwy o lawer o bwysigrwydd fel gorchwyl dyddiol na'r hyn a ddëllir yw'r '*jihad* lleiaf,' sy'n cyfeirio at hunanamddiffyniad o ddiogelwch corfforol wrth wynebu ymosodiad gan elyn. Yn nhermau rhyfel, nid yw *jihad* i gael ei weithredu yn erbyn gormeswyr neu oresgynwyr, ond fel gweithred o hunanamddiffyniad. Pe byddai'n cael ei ddehongli yn rhywbeth amgenach na hyn, mae 'Ashmawy'n datgan nad yw'r weithred yn *jihad* ond yn ymosodiad cythruddol - sydd yn waharddedig gan benillion ac ysbryd y Qur'an.

Ymhellach, caiff ei dderbyn gan Fwslimiaid cymedrol mai'r *jihād* mwyaf arwyddocaol a phwysicaf yw'r un sy'n gyson ac yn barhaol mewn bywyd. Caiff ei sylfaenu ar 'frwydr' foesegol, foesol, ac ysbrydol. Mae 'Ashmawy yn egluro fod:

y jihad hwn yn ymdrech egnïol, neu'n gyfres o ymdrechion, i ymddisgyblu rhag trachwant, cybydd-dod, llwfrdra, ofn, gormes, anwybodaeth, ymostwng i elfennau negyddol, ildio i ddymuniadau drwg a rhoi i mewn i nwyd. Mae'r *jihad* hwn yn osgoi bodolaeth ddiystyr a bywyd gwag, sydd ddim mor hawdd a chyfforddus. (O'Sullivan, 1999 *addasiad*)

Gorchmynnir i bob Mwslim defosiynol fyw bywyd yn unol ag arweiniad Allah/Duw a'r Proffwyd Muhammad, ac i hyrwyddo neges Islam trwy ei eiriau a'i weithredoedd ef neu hi. Golyga hyn fod pob unigolyn yn gorfod ymegnio'u hunain i'r eithaf, er mwyn dilyn yn bersonol athrawiaethau Islam a gweithio er mwyn

eu sefydlu mewn cymdeithas. Gan hynny:

Mae ymrwymiad i Dduw'n golygu ymrwymiad i aberthu ein hamser, ein hegri a'n cyfoeth i hyrwyddo'r gwir achos. Gall fod yn angenrheidiol ar adegau i roi ein bywyd er mwyn cadw'r Gwirionedd. Awgryma *Jihad* y parodrwydd i roi beth bynnag sydd gan rywun, yn cynnwys ei fywyd, er mwyn Allah. (Sefydliad Islamaidd, 1981 *addasiad*)

Dyfnider yr ymrwymiad hwn yw ei fod wedi cynnig ei hun mor hawdd yn y blynyddoedd diweddar at achos yr hyn sy'n cael ei gydnabod fel 'Ffwdamentalïaeth Islamaidd'. Gan nad yw *jihad* yn un o bum piler Islam, mae'r pwysau unochrog hwn a osodir ar "ryfeloedd sanctaidd" ac ymladd yn llurguniad hanesyddol o'r gwir gysyniad o *jihad* ac yn ganlyniad i ddiddordebau gwleidyddol - '*one-sided stress placed on "holy wars" and fighting is a historical distortion of the real concept of jihād and is due to political interests*' (Ibn Majah, 1981)

'Rhyfel sanctaidd' mewn Arabeg

Dylai beirniad fod yn ymwybodol wrth ddadansoddi Islam bod yr enghreifftiau a ddefnyddir i ymosod ar Islam yn aml yn cael eu cymryd o adnoddau cyfyngedig iawn. Mae'r diffiniad y cyfryngau torfol gorllewinol o *jihad*, yn nhermau 'rhyfel sanctaidd', yn un esiampl eglur, gan fod y term yn golygu'n llythrennol y syniad diametraidd gwrthwynebol o 'frwydr' rhwng yr unigolyn Mwslimaidd ac Allah. (O'Sullivan, 1999). Mae'r camliwiad hwn yn ganlyniad naill ai o esgeulustod neu gamliwiad bwriadol o'r Arabeg. Byddai cyfieithiad llythrennol o'r dywediad Seisnig '*holy war*' - rhyfel sanctaidd, i'r

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

Arabeg, yn golygu y byddai'n rhaid defnyddio geiriau Arabeg eraill: y gair am ryfel mewn Arabeg yw *harb*, a sanctaidd yw *muqadassa* (Knapp, 2003); ac er mwyn cyfieithu "rhyfel sanctaidd" yn ôl i'r Arabeg, byddem yn cael *al-harb al-muqaddas*, term sydd ddim yn bodoli mewn unrhyw ffurf yn y traddodiad Islamaidd '-to translate "holy war" back into Arabic we would have *al-harb al-muqaddas*, a term which does not exist in any form in the Islamic tradition' (Royal Aal al-Bayt Institute for Islamic Thought, 2009). Yn ieithyddol, nid yw'n bosib cyfieithu'r gair Arabeg *jihad* ychwaith, yn uniongyrchol nac yn anuniongyrchol, i olygu 'rhyfel sanctaidd'.

Jihad fel chweched piler Islam?

Yn aml, ystyrir y cysyniad o *jihād* fel rhywbeth sydd â chyswllt cyfan gwbl â phum colofn sefydledig Islam:

1. *Shahada*: Y mynegiant o dystiolaeth gyhoeddus 'nad oes duw arall ond Allah ac mai Muhammad yw ei Broffwyd.'
2. *Salat*: Y gweddïau dyddiol, neu'r defodau addoli, a gyflwynir bum gwaith y dydd.
3. *Zakat*: Y rhwymedigaeth i gyflwyno elusen, yn seiliedig ar werth incwm neu gyfanswm cyfoeth rhywun.
4. *Sawm*: Ympryd sy'n ymwneud yn benodol ag osgoi yfed dŵr na bwyta yn ystod oriau'r dydd ym mis Ramadan.
5. *Hajj*: Y bererindod sanctaidd i Mecca y bydd Mwslim yn ei gwneud o leiaf unwaith yn ei fywyd, os yw hynny'n gorfforol ac ariannol bosib (Nygard, 1996).

Canolbwyntia pob un o'r pum colofn ar Fwslimiaid yn ymgymryd â'r dyletswyddau hyn yn feunyddiol,

oherwydd mai'r colofnau hyn yw'r anghenion sylfaenol er mwyn cymryd rhan yn '*aslama* – dod yn ufudd i Allah. Nid oes unrhyw anghytundeb gwirioneddol ynghylch y pum colofn ymysg y cymunedau Mwslimaidd Sunni a'r Shi'a.

Y brif ffynhonnell sy'n hawlio mai *jihad* yw chweched golofn gyfreithlon Islam yw'r un sy'n seiliedig ar ddaliadau grŵp Mwslimaidd eithafol o'r seithfed ganrif, sef y Kharijitiaid (Middleton, 1992; Nygard, 1996; Van der Krogt, 2010). Derbyniodd y grŵp eu teitl oherwydd eu bod yn anghytunwyr ac yn anfodlon derbyn llawer o'r credoau a'r arferion crefyddol unionged (Ystyr llythrennol *Khawârij* yw 'y rhai aeth allan': (<http://www.cyclopaedia.info/wiki/Khawarij>)). Ymddangosodd y sect ymosodgar hon ym mlynnyddoedd olaf y seithfed ganrif, tua'r cyfnod pan oedd rhyfeloedd olyniaeth ymysg y Mwslimiaid cynnar. Daliai'r Kharijitiaid at y safbwynt y gallai unrhyw Fwslim duwiol a defosiynol gael ei ethol i arwain y gymuned ffyddlon. Gwrthododd y grŵp gysylltu arweinyddiaeth gydag unrhyw ddibyniaeth ar ach deuluol nag unrhyw rywmau eraill, a gallai'r dyn a etholwyd aros yn arweinydd cyn belled â'i fod yn byw'n ddibechod.

Yn bwysicach, roeddynt yn ystyried *jihad* fel chweched piler Islam, gan ddefnyddio'r cleddyf i ledaenu'r weledigaeth a oedd ganddynt am y gwirionedd. Roedd eu hymlyniad ffanatig â'r syniadau hynny'n eu gwneud yn anoddefgar o'r rhan fwyaf o Fwslimiaid, gan gyhoeddi rhyfel yn erbyn bron bawb arall a pharhau mewn stad arhosol o wrthryfel yn erbyn y Galiffiaeth oedd yn llywodraethu (MacFarquhar, 2009

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

addasiad; gweler hefyd Middleton, 1992).

Oherwydd eu trais cyson fel gwrthryfelwyr anghytunol, fe gollasant y cyfan o'u dylanwad tuag at ddiwedd y seithfed ganrif, ac yn syml fe ddiplannodd yr alwad i wneud *jihad* yn chweched golofn. Gan nad yw'r Qur'an yn edrych ar *jihad* fel 'rhyfel sanctaidd' gyfreithlon, nac yn ei ddyfynnu fel 'erthygl ffydd' sylfaenol oddi mewn i bum colofn Islam, mae'n ymddangos mai'r Kharijitiad oedd yr unig grŵp arwyddocaol mewn hanes i fod wedi mynnu y dylai *jihad* gael ei barchu fel y 'chweched golofn'. Fodd bynnag, yn y blynyddoedd diwethaf, ystyria'r rhan fwyaf o filwriaethwyr ffundamentalaid ei bod hi'n ddyletswydd hanfodol ar ran y crediniwr "gwirioneddol" - '*most militant fundamentalists consider it an essential duty of the 'true' believer*' (Hoveyda, 1998). Amlygiad eglur o hyn yw'r 'Wladwriaeth Islamaidd' sef y grŵp milwriaethus Sunni (yr ISIS gynt, sef yr '*Islamic State of Iraq and the Levant*'), ynghyd â chelloedd al-Qaeda wedi eu lleoli mewn sawl gwlad, a'r Taliban, yn bennaf i'w cael yn Afghanistan a Phacistan (Newyddion BBC, 2013, 2014). Hyrwydda'r grwpiau hyn eu cenhadaeth mewn bywyd fel un o frwydro dros Allah, ac o bosib i farw fel merthyr wrth ymgymryd â'u *jihad* personol.

Testunau Qur'anau eraill sy'n berthnasol i *jihād*

Fel mae un pennill arwyddocaol yn y Qur'an yn dynodi'n glir, ni ellir defnyddio

jihad i orfodi pobl sydd ddim yn Fwslimiaid i droi at Islam, oherwydd nid oes gorfodaeth mewn crefydd - '*there is no compulsion in religion*' (*Al-Baqarah*, 2:256). Dynoda pennill arall bod achub un bywyd yn gyfystyr ag achub y ddynoliaeth gyfan, yn gymaint â bod lladd un person yn gyfystyr â lladd y ddynoliaeth gyfan:

pwy bynnag sy'n lladd person am resymau ar wahân i lygredd [a wneir] yn y wlad – mae'n gyfystyr â'i fod wedi lladd y ddynoliaeth yn gyfan gwbl. A phwy bynnag sy'n achub un bywyd – mae hynny fel pe byddai wedi achub y ddynoliaeth yn gyfan gwbl. (*Al-Ma'idah*, 5:32 *addasiad*)

Gwaherddir hunanladdiad hefyd yn y Qur'an; felly byddai'n ymddangos yn amhosib gallu amddiffyn hunan-fomwyr sy'n cymryd eu bywydau eu hunain - ac sy'n amcanu i ladd pobl eraill diniwed wrth wneud hynny - er gwaethaf eu cred eu bod hwy'n ferthyron trwy ymgymryd â *jihad* ac offrymu eu bywyd 'yn achos Allah'. Mae'r neges yn y Qur'an yn glir:

O chwi sydd wedi credu, na ddihoenwch gyfoeth un arall yn anghyfiawn ... **Ac na laddwch eich hun [na'r naill a'r llall]**. Yn wir, mae Allah yn fythol Drugarog i chwi. (*An-Nisā'*, 4:29 *addasiad*)

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

Cysylltau

<http://tirmscholars.org/2013/07/16/boook-war-and-peace-in-islam-the-uses-and-abuses-of-jihad/> (*War and peace in Islam: the uses and abuses of jihād*, 2013)

http://digitalcommons.liberty.edu/cgi/viewcontent.cgi?article=1023&context=gov_fac_pubs (*Encyclopaedia of jihād: Islamic jihād*, 2001)

http://www.grotius.hu/doc/pub/CRMSRP/2014-05-24_devenyi_the_struggle-for-faith-in-islam.pdf (Kinga Dévényi. *The struggle for faith in Islam: The theory and practice of jihad*, 2014)

<http://pages.uoregon.edu/aweiss/IslamGlobalForces/Esposito%20Week%201.pdf> (John Esposito. *Islam: The straight path*, 2005)

http://www.unaoc.org/repository/Esposito_Jihad_Holy_Unholy.pdf (John Esposito. *Jihad: holy war or unholy war?*)

Pwyntiau trafod

1. Os yw'r cysyniad o *jihād* yn wirioneddol ysbrydol, er annog unigolyn i fod yn ostyngedig a duwiol, pam y mae gwahanol grwpiau milwriaethus wedi ei ddefnyddio i gyfiawnhau eu gweithredoedd o derfysg?
2. Sut y byddai modd i un fynd ati i ffurfio cyswllt cadarn rhwng pum colofn Islam, er mwyn dadlau bod y cysyniad mai *jihād* yw'r Chweched Golofn oherwydd ei fod yn cefnogi'r pump?
3. Os yw'r *jihād* lleiaf yn caniatáu i Fwslim defosiynol ladd y gormeswr mewn gweithred hunanamddiffynol, a ellir defnyddio hynny fel cyfiawnhad cyfreithlon i ladd 'lloedd gwladychol y gorllewin'?
4. I ba raddau y gall Mwslimiaid ddadlau bod merthyrdod yn gyfiawn, gan fod hunanladdiad yn waharddedig yn Islam?

Cyfeiriadau

- Armstrong, Karen (2005). The label of Catholic terror was never used about the IRA. *The Guardian*, 11 July (<http://www.theguardian.com/politics/2005/jul/11/northernireland.july7>).
- BBC News (2013). Al-Qaeda around the world, 5 August, 2013 (<http://www.bbc.com/news/world-13296443>).
- BBC News (2014). Syria Iraq: The Islamic State militant group, 2 August, 2014 (<http://www.bbc.com/news/world-middle-east-24179084>).
- Firestone, Reuven (1999). *Jihad: The origin of holy war in Islam*. New York: Oxford University Press. (<http://www.thedivineconspiracy.org/Z5245V.pdf>).
- Fluehr-Lobban, Carolyn (1998). *Against Islamist extremism : The writings of Mohammad Sa'id al-'Ashmawy*. Gainesville, Florida: University Press of Florida.
- Hoveyda, Fereydoun (1998). *Them: The 'threat' of Militant Islamic fundamentalism*. Westport, Connecticut: Praeger.
- Ibn Majah, Muhammad b. Yazid al-Qazwini, *Sunan Ibn Majah*, Kitab al-Fitan, Bab al-amr bi'l-ma'ruf wa'l-nahy 'ân al-munkar, *hadith* no.4011, Cagri Yayinlari, Istanbul, 1401/1981.
- Islamic Foundation (1981). *Islam: The essentials*. Leicester: The Islamic Foundation.
- Knapp, Michael (2003). The concept and practice of jihad in Islam. *Parameters: US Army War College Quarterly*, 33(1), Spring, 82-94. (<http://strategicstudiesinstitute.army.mil/pubs/parameters/articles/03spring/knapp.pdf>).
- MacFarquhar, Neil (2009). *The media relations department of Hizbollah wishes you a happy birthday: Unexpected encounters in the changing Middle East*. New York: Perseus Books.
- Middleton, Gordon (1992). *Jihad: Islamic thought and practice*. Maxwell Air Force Base, Alabama: Air War College (www.dtic.mil/cgi-bin/GetTRDoc?AD=ADA258362).
- Nygard, Mark (1996). The Muslim concept of surrender to God. *Word & World*, XVI(2), (http://wordandworld.luthersem.edu/content/pdfs/16-2_islam/16-2_nygard.pdf).
- O'Sullivan, Declan (1999). In defence of Islam and the western misinterpretation of what is perceived to be 'Islamic Fundamentalism'. *Le Courier Du Geri: Recherches d'Islamologie et de Théologie Musulmane*, 2(3), 161-181 (<http://stehly.perso.infonie.fr/declan.htm>).
- Qur'anic English translations are from <http://quran.com/>

Y Cysyniad o *Jihād* mewn Islam

- Royal Aal al-Bayt Institute for Islamic Thought (2009). *Jihad and the Islamic law of war*. Jordan (www.rissc.io/books/en/003-Jihad-Islamic-Law-War.pdf).
- Schuett, Neal (2006). *The struggle to define jihad: A religious belief or secular philosophy?* (http://papers.ssrn.com/sol3/papers.cfm?abstract_id=893320)
- Taylor, Peter (2013). Paramilitaries in the Troubles BBC News (http://www.bbc.co.uk/history/topic/s/troubles_paramilitaries).
- Van der Krogt, Christopher J. (2010). Jihād without apologetics. *Islam and Christian–Muslim Relations*, 21(2), 127–142 (http://cges.umn.edu/docs/Van_der_Krogt.Jihad_Without_Apologetics.pdf).

Ar gyfer ei radd PhD yng Nghanolfan Astudiaethau'r Dwyrain Canol ac Islamaidd ym Mhrifysgol Durham, cyflwynodd Dr Declan O'Sullivan waith ymchwil ar y testun 'Punishing apostasy: The case of Islam and shari'a law re-considered.' Yn 2006-7 roedd yn ymchwilydd ar y prosiect 'Abrahamic religions: The common values and beliefs of Judaism, Christianity and Islam' ym Mhrifysgol Manceinion, oedd yn amcanu i hyrwyddo Astudiaethau Crefyddol ymysg myfyrwyr mewn addysg uwchradd. Ei swydd bresennol yw Pennaeth Adran Addysg Gyffredinol yng Nghyfadran Celfyddydau Rhyddfrydol Prifysgol Ryng-genedlaethol Stamford, ar gampws Bangkok, Gwlad Thai. Mae wedi cyhoeddi dros ugain o erthyglau mewn cylchgronau academiaidd.